




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru

Llacio'r cyfyngiadau'n raddol



Chwefror 2021

# Rhagair y Gweinidogion

---

Rydym mewn cyfnod anodd a heriol i bawb. Mae gormod o bobl wedi colli anwyliaid ac mae'r pandemig wedi amharu ar fywydau pob un ohonom.

Ers inni gyhoeddi ein Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru ym mis Rhagfyr, mae llawer wedi newid.

Mae ein rhaglen frechu'n mynd o nerth i nerth – rydym yn gobeithio y gall brechlynnau, dros amser, ein helpu i symud i ffwrdd o'r angen am gyfyngiadau caeth iawn ac y byddant o gymorth i'n diogelu rhag y risg o salwch difrifol.

Mae tro arall wedi bod yng nghwrs y pandemig wrth i amrywiolynnau newydd ymddangos yn y DU ac mewn gwledydd eraill. Mae gan rai o'r rhain y potensial i gynyddu'r risg o glefyd difrifol, cynyddu'r gyfradd heintio a hyd yn oed gyfyngu ar effeithiolrwydd y brechlynnau presennol.

Mae'r newidiadau hyn a'r ansicrwydd presennol yn golygu bod angen inni lacio'r cyfyngiadau'n raddol iawn, yn hytrach na symud yn syth i lefel rhybudd 3. Yn y diweddariad hwn, rydym yn nodi beth sydd wedi newid ers mis Rhagfyr a beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer ein penderfyniadau.

Mae ein dull gweithredu a'n penderfyniadau wedi'u llywio gan waith ar y cyd gyda'n partneriaid gan gynnwys llywodraeth leol, y sector gwirfoddol, cyflogwyr ac undebau llafur, a bydd hynny'n parhau.

Unwaith eto, rydym yn dilyn cyngor Sefydliad Iechyd y Byd, ein Cell Cyngor Technegol a Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau y DU (SAGE), sydd i gyd yn argymhell llacio cyfyngiadau'n ofalus. Mae Sefydliad Iechyd y Byd, er enghraifft, yn parhau i gynghori y dylai mesurau, pan fo'n bosibl, gael eu mabwysiadu (neu eu llacio) mewn modd graddol, dan reolaeth, er mwyn gallu deall yn well effeithiau pob mesur ar drosglwyddiadau<sup>1</sup>.

Gallwn addasu, a dyna beth fyddwn yn ei wneud. Mae llawer o ansicrwydd, ac mae'n bosibl y bydd rhagor o ddatblygiadau i ddod, ond mae'r brechlyn yn cynnig llwybr allan o'r cyfyngiadau ac at amser pan allwn ni ddod o hyd i ffordd o fyw gyda'r feirws hwn.



**Mark Drakeford AS**  
Prif Weinidog Cymru



**Vaughan Gething AS**  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol

<sup>1</sup> Considerations for implementing and adjusting public health and social measures in the context of COVID-19: interim guidance, Tachwedd 2020, Sefydliad Iechyd y Byd. Ar gael yn: [www.who.int/publications/i/item/considerations-in-adjusting-public-health-and-social-measures-in-the-context-of-covid-19-interim-guidance](http://www.who.int/publications/i/item/considerations-in-adjusting-public-health-and-social-measures-in-the-context-of-covid-19-interim-guidance)

# Cyflwyniad

---

**Roedd y dull gweithredu yn y Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, wedi'i seilio ar gorff o dystiolaeth ynglŷn â beth oedd yn gweithio'n effeithiol i gyfyngu ar COVID-19 yn y Deyrnas Unedig.**

Bu llawer o ddatblygiadau dros y gaeaf sydd wedi newid ein ffordd o ymateb i'r pandemig, a byddant yn parhau i wneud hynny. Ar y naill law, gall brechlynnau, dros amser, ein helpu i symud i ffwrdd o'r angen am gyfyngiadau llym iawn a byddant yn helpu i'n diogelu rhag salwch difrifol. Ar y llaw arall, rydym wedi gweld amrywiolynnau newydd yn ymddangos, a all beri mwy o risg o glefyd difrifol, cyfradd heintio uwch, neu'r potensial i gyfyngu ar effeithiolrwydd brechlynnau presennol.

Ers cyhoeddi'r cynllun, mae gennym bellach dri brechlyn sydd wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio yng Nghymru a ledled y DU. Cymeradwywyd brechlyn Pfizer-BioNTech ar 2 Rhagfyr 2020, brechlyn Rhydychen-AstraZeneca ar 30 Rhagfyr 2020, a brechlyn Moderna ar 2 Ionawr 2021 (ond nid yw ar gael eto yn rhaglen frechu'r DU). Mae rhagor o frechlynnau ar y gweill.

Erbyn 12 Chwefror 2021, roeddem wedi cynnig y dos cyntaf o frechlyn i'r pedwar grŵp blaenoriaeth cyntaf ac rydym yn anelu at wneud hynny ar gyfer y pum grŵp blaenoriaeth nesaf erbyn diwedd mis Ebrill 2021.

Mae'r datblygiadau hyn yn cynnig gobaith inni ar gyfer y dyfodol wrth i fwy a mwy o bobl gael eu brechu yn ystod y flwyddyn. Rydym yn dal i ddysgu am effeithiolrwydd brechlynnau a'u heffaith ar drosglwyddo, ond os ydynt yn gweithio fel y gobeithir, byddant – ynghyd â mesurau iechedd cyhoeddus eraill – yn ein galluogi i symud allan o fesurau lefel rhybudd 4, sydd wedi bod mewn grym ers diwedd mis Rhagfyr. Rydym yn disgwyl gweld dangosyddion ar gyfer capasiti'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a nifer y bobl sy'n marw o COVID-19 yn gostwng.

Ers mis Rhagfyr, rydym hefyd wedi gweld sawl amrywiolyn a mwtaniad newydd o'r coronafeirws yn ymddangos, gan gynnwys VOC-202012/01, a ganfuwyd gyntaf yng Nghaint ac sy'n cael ei alw'n straen Caint. O ystyried y potensial i amrywiolynnau beri mwy o risg o drosglwyddo a chlefyd difrifol, neu hyd yn oed gyfyngu ar effeithiolrwydd brechlynnau, mae angen adolygu ein dull gweithredu.

Wrth i'r feirws newid, rhaid i ninnau newid hefyd. Pan ganfuwyd straen Caint gyntaf, roedd angen ychwanegu at ein mesurau 'aros gartref' er mwyn symud y mwyafrif o ddisgyblion i ddysgu ar-lein. Ynghyd â'n hymdrechion cyfunol i gadw pellter cymdeithasol, gwisgo gorchudd wyneb pan fo'n ofynnol, a chynnal hylendid anadlol, mae hyn wedi cyfrannu at ostyngiad yn y cyfraddau trosglwyddo ers mis Ionawr.

Rydym nawr wedi cyrraedd adeg dyngedfennol; mae'r pwysau ar y GIG yn lleihau, ac mae ein rhaglen frechu'n cyflymu. Nid ydym am beryglu hyn drwy lacio'r cyfyngiadau'n rhy gynnar, yn enwedig yn sgil y risgiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r amrywiolynnau a'r mwtaniadau sy'n peri pryder. Mae'n debygol y bydd brechiadau dros y ddau i dri mis nesaf yn diogelu'r mwyafrif helaeth o'r rhai sydd yn y perygl mwyaf o salwch difrifol a marwolaeth. Bydd angen inni gymryd camau gofalus tan hynny i osgoi cynnydd cyflym arall mewn achosion o'r feirws.

Yn y diweddariad hwn i'r fframwaith lefelau rhybudd, rydym yn nodi ein dealltwriaeth bresennol o effeithiau amrywiolynnau newydd. Rydym yn disgrifio sut mae ein systemau yn ymateb i'r her er mwyn lliniaru'r effeithiau hyn; o'n gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu hynod effeithiol, i'n rhaglen frechu ddigynsail. Yna, rydym yn nodi sut y byddwn yn mynd ati i lacio'r cyfyngiadau'n ofalus ac yn raddol, gan roi blaenoriaeth i addysg a sicrhau y gall y rhaglen frechu barhau i weithredu ar gyflymder a helpu i ddiogelu'r rhai yn y perygl mwyaf.

# Brechlynnau, Amrywiolynnau, a Phrofi, Orlhain, Diogelu

## Brechlynnau

Mae brechlynnau yn arf hanfodol i ddiogelu pobl. Mae cyflwyno'r rhaglen frechu yn llwyddiannus yn allweddol i sicrhau dyfodol mwy disglair.

Fel y nodir yn ein strategaeth frechu genedlaethol<sup>2</sup>, y targed cyntaf a osodwyd gennym oedd cynnig brechiad i bawb yn y pedwar grŵp blaenoriaeth cyntaf erbyn canol mis Chwefror. Ein blaenoriaeth yw diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed a lleihau derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau.

Diolch i ymdrech eithriadol ein GIG ar y cyd â llywodraeth leol, y fyddin a lluo o wirfoddolwyr rydym wedi cyrraedd y garreg filltir hon. Rydym eisoes wedi brechu traean o'n poblogaeth oedolion.

Mae'r nifer sy'n dewis cael y brechlyn yn uchel iawn hyd yma, gan ragori ar y targed o 80% a osodwyd gennym ar gyfer y pedwar grŵp cyntaf yn y cynllun brechu. Mae'r gyfradd mewn rhai grwpiau blaenoriaeth nawr wedi pasio 90%. Rydym yn parhau i fynd i'r afael â phryderon bod lefelau is o bobl yn dewis cael y brechlyn ymhlith rhai grwpiau ac rydym yn estyn allan at gymunedau lle gall hyn fod yn wir. Er enghraifft, rydym yn parhau i weithio gyda chymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Ni fydd neb yn cael ei adael ar ôl a bydd y GIG yn cysylltu eto â phobl nad ydynt wedi cael eu brechu hyd yma i sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd pellach i fanteisio ar y cynnig amddiffynnol pwysig hwn. Wrth i'r rhaglen frechu fynd rhagddi, byddwn yn parhau i ddilyn cyngor Cyd-bwyllgor y DU ar lmiwneiddio a Brechu (JCVI) wrth iddo ystyried y grwpiau nesaf i'w blaenoriaethu.

Y garreg filltir nesaf yw cynnig y brechlyn i'r pum grŵp blaenoriaeth nesaf erbyn diwedd mis Ebrill. Gyda'i gilydd, amcangyfrifir bod y naw grŵp blaenoriaeth cyntaf, fel y'u nodwyd gan JCVI, yn cynrychioli tua 99% o farwolaethau COVID-19 y gellir eu hatal.

Wrth inni gyflwyno brechlynnau'n llwyddiannus, rydym hefyd yn dysgu mwy am ba mor effeithiol ydynt ac mae newyddion cadarnhaol wedi bod yn ddiweddar am hyn:

- Mae'r rheoleiddiwr meddyginiaethau a gofal iechyd annibynnol wedi cyhoeddi ymchwil sy'n dangos bod y brechlynnau presennol yn hynod ddiogel, gyda sgil effeithiau ysgafn a disgwylidig yn unig;

- Mae astudiaeth ar frechlyn Rhydychen-AstraZeneca yn awgrymu y gallai arwain at ostyngiad sylweddol yn nhrosglwyddiad y feirws (hyd at 67%), a bod yr amddiffyniad hwnnw wedi aros ar 76% yn ystod y tri mis cyntaf ar ôl y dos cyntaf, ac wedi codi i 82% ar ôl yr ail dos;
- Mae adran imiwneiddio Sefydliad Iechyd y Byd wedi dweud, hyd yn oed pe bai'r effeithiolrwydd o ran atal salwch yn gostwng i lefel isel gydag amrywiolynnau newydd o'r feirws, bydd y brechlyn yn dal i atal clefyd difrifol a marwolaeth.

Fodd bynnag, mae mwy y mae angen inni ei ddysgu am effaith brechu ac mae yna berygl yn sgil amrywiolynnau a mwtaniadau sy'n peri pryder ac sy'n bresennol yng Nghymru a'r DU, yn enwedig VOC-202012/02, a ganfuwyd gyntaf yn Ne Affrica. Mae hefyd botensial o hyd i amrywiolynnau newydd ymddangos.

I fynd i'r afael â'r risg gynyddol bosibl hon, efallai y bydd angen inni ategu ein rhaglen frechu gyda dos atgyfnerthu yn yr hydref i ddiogelu rhag amrywiolynnau a mwtaniadau sy'n peri pryder.

Rydym yn gobeithio gweld effeithiau brechiadau sydd eisoes wedi'u rhoi erbyn canol mis Mawrth, gan gynnwys llai o bwysau ar y GIG a llai o farwolaethau. Gallai effaith brechu'r pum grŵp blaenoriaeth nesaf ddod i'r amlwg erbyn canol mis Mai, gan leihau nifer y marwolaethau ymhellach eto. Rhaid inni fod yn ofalus o hyd, fodd bynnag, gan fod cynnig y brechlyn i bawb yn cymryd amser. Fel gyda phob brechlyn, nid yw brechlynnau COVID-19 yn 100% effeithiol. Gallai covid hir, lle mae pobl yn cymryd amser hir i adfer o effeithiau haint y coronafeirws, barhau i achosi effeithiau negyddol hirdymor ar iechyd. Unwaith y byddwn wedi brechu'r pum grŵp blaenoriaeth nesaf, byddwn wedi cynnwys y rhai sydd yn y perygl mwyaf o salwch difrifol a marwolaeth. Tan hynny, gallai ein GIG barhau i fod o dan bwysau os byddwn yn ymlacio'n rhy fuan a gallai nifer yr achosion gynyddu eto. Rydym ar y trywydd at adferiad, ond bydd yn cymryd amser.

## Amrywiolynnau sy'n Peri Pryder

Mae'n gyffredin i feirysau newid dros amser gan greu amrywiolynnau newydd. Mae amrywiolyn yn peri pryder os yw'n fwy trosglwyddadwy, yn achosi clefyd mwy difrifol neu'n osgoi imiwnedd. Fel y disgwyl, rydym wedi gweld amrywiolynnau o COVID-19, a mwtaniadau yn ymddangos.

Y math mwyaf cyffredin o COVID-19 yng Nghymru heddiw, ac ar draws y DU, yw VOC-202012/01, a ganfuwyd gyntaf yng Nghaint. Mae'n wahanol i'r "math gwyllt" gwreiddiol o'r coronafeirws a oedd yn ein cymunedau a chredir ei fod rhwng 30% a 50% yn fwy trosglwyddadwy, yn ôl SAGE<sup>3</sup>. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y brechlynnau yr ydym yn eu defnyddio yn llai effeithiol yn erbyn yr amrywiolyn hwn o'i gymharu â'r feirws gwyllt gwreiddiol.

3 Iechyd Cyhoeddus Lloegr, Investigation of novel SARS-COV-2 variant: Variant of Concern 202012/01, Technical Briefing 1, 21 Rhagfyr 2020, tudalennau 3-4.

Mae amrywiolynnau eraill yn bresennol yn y DU a Chymru, er mewn niferoedd cymharol fach. Mae manylion am yr amrywiolynnau diweddaraf ar gael yn yr adroddiad o'r sefyllfa yn y DU<sup>4</sup>.

Rydym yn dal i ddysgu am ddifrifoldeb clefyd, trosglwyddadwyedd, dihangiad imiwnyddol, ac effeithiolrwydd brechlynnau yn erbyn yr amrywiolynnau hyn. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth eto i awgrymu y bydd amrywiolynnau presennol yn achosi i frechlynnau gynnig llai o amddiffyniad rhag clefyd difrifol, derbyniadau i'r ysbyty a marwolaeth.

Mae angen inni fod yn wiliadwrus o hyd a byddwn yn parhau i wneud pob ymdrech i ganfod a rheoli achosion o amrywiolynnau sy'n peri pryder yng Nghymru a'r DU.

I atal trosglwyddo amrywiolynnau sy'n peri pryder yng Nghymru, caiff dull iechyd cyhoeddus safonol ei fabwysiadu.

Yn gyntaf, atal yr achosion o amrywiolynnau sy'n peri pryder rhag bod yn bresennol yng Nghymru a rhag gallu trosglwyddo haint, a chadw trosglwyddo cymunedol mor isel â phosibl i leihau'r siawns y bydd amrywiolyn newydd sy'n peri pryder yn ymddangos yng Nghymru. Mewnforio amrywiolynnau sy'n peri pryder yw un o'r prif risgiau y mae angen inni ei rheoli. I fynd i'r afael â'r bygythiad hwn, rydym wedi cryfhau mesurau rheoli ffiniau ledled y DU, gan gynnwys profion cyn ymadael, trefniadau cwarantîn, a phrofi pobl sy'n dychwelyd i Gymru a dilyniannu canlyniadau positif.

Yn ail, canfod achosion o amrywiolyn sy'n peri pryder drwy sgrinio er mwyn atal trosglwyddo. Mae cadw gwylidwriaeth ar achosion yn y boblogaeth gyffredinol yn hanfodol i sicrhau bod amrywiolynnau sy'n peri pryder yn cael eu nodi'n gyflym. Mae genomeg cyfran sylweddol o achosion positif a nodir yng Nghymru yn cael ei dilyniannu er mwyn canfod achosion o amrywiolynnau sy'n peri pryder. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r systemau dilyniannu genomeg o'r radd flaenaf sydd ar waith yng Nghymru i'n helpu i fonitro amrywiolynnau presennol sy'n peri pryder, a chanfod unrhyw rai newydd.

Ac yn drydydd, rheoli achosion a chlystyrau lle mae trosglwyddo eisoes wedi digwydd yng Nghymru, er mwyn cyfyngu ar y niwed. Oherwydd y canlyniadau iechyd cyhoeddus posibl yn sgil amrywiolynnau sy'n peri pryder, mae angen ymchwiliadau ychwanegol pan nodir achosion drwy ddilyniannu genomeg. Mae gwaith dwys i ganfod achosion yn arbennig o bwysig mewn lleoliadau lle canfyddir achosion heb gysylltiadau amlwg â theithio. Mae Cymru yn dilyn egwyddorion hirsefydledig rheoli clefydau trosglwyddadwy, sy'n dechrau drwy ymchwilio'n fanwl i achosion ac sydd fel arfer yn arwain at brofion wedi'u targedu yn seiliedig ar yr wybodaeth a gasglwyd wrth ymchwilio i'r achos. Bydd profion ehangach yn cael eu cynnal os bydd y timau a sefydlwyd i ymchwilio i'r achosion yn penderfynu bod hynny'n briodol. Bydd yr ymchwiliadau'n canolbwyntio i ddechrau ar yr achos ac yn cael eu hehangu'n raddol os na ellir canfod ffynhonnell yr haint.

<sup>4</sup> Mae'r adroddiad o'r sefyllfa yn y DU ar gael yma: [www.gov.uk/government/publications/covid-19-variants-genomically-confirmed-case-numbers](https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-variants-genomically-confirmed-case-numbers)

Fel rydym eisoes wedi gweld, gall amrywiolynnau sy'n peri pryder ymddangos unrhyw bryd, unrhyw le yn y byd (gan gynnwys o fewn y DU), ac maent yn fwy tebygol o ddigwydd os oes gennym lefelau uchel o drosglwyddo cymunedol. Dyna pam y bydd yn parhau'n bwysig cadw cyfraddau'r haint dan reolaeth, hyd yn oed wrth i'r rhai mwyaf agored i niwed yn y boblogaeth gael eu brechu. Wrth i frechlynnau gael eu darparu ac os byddant hefyd yn helpu i atal trosglwyddo, fel y gobeithir, dylem allu cadw cyfraddau'n isel a chanolbwyntio ein hymdrechion ar reoli unrhyw amrywiolynnau a mwtaniadau newydd sy'n peri pryder.

## Profi, Orlhain, Diogelu

Ochr yn ochr â'r brechlyn, bydd atal trosglwyddo COVID-19 yn effeithiol drwy Profi, Orlhain, Diogelu yn parhau i fod yn hanfodol. Mae Profi, Orlhain, Diogelu yn cael effaith sylweddol ar gyfraddau heintio yng Nghymru oherwydd y ffordd y mae pobl Cymru wedi ymateb i'n swyddogion olrhain cysylltiadau ac wedi ynysu pan ofynnir iddynt wneud hynny. Dyma un o'r ffyrdd pwysicaf sydd gennym o hyd o dorri'r cadwyni trosglwyddo.

O ystyried bod amrywiolynnau a mwtaniadau newydd sy'n peri pryder yn gallu bod yn fwy trosglwyddadwy, bydd ein gallu i ganfod achosion a chyrraedd cysylltiadau yn parhau'n bwysig. Mae ein rhwydwaith presennol o safleoedd profi ledled Cymru yn golygu y gall pobl gael prawf yn gyflym ac yn hawdd. Mae gennym gapasiti profi sylweddol, gan ddychwelyd canlyniadau'n gyflym, drwy labordai Iechyd Cyhoeddus Cymru a labordai Goleudy. Mae'r gwaith olrhain cysylltiadau yn cael ei wneud yn gyflym, gan gyrraedd mwy o achosion a chysylltiadau nag erioed. Rydym yn gwybod bod cyflymder yn hanfodol er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws ymhellach.

## Y Strategaeth Brofi

Gallwn nawr ddefnyddio technolegau profi newydd, ar y cyd â phroffion labordai presennol, i brofi ar raddfa fwy o lawer ac yn llawer amlach a chyflymach. Mae ein Strategaeth Brofi yn nodi sut y byddwn yn cyflawni ein blaenoriaethau profi:

- **Profi i wneud diagnosis** – Profi pobl pan fyddant yn cael eu derbyn i'r ysbyty, pobl sy'n datblygu symptomau tra maent yn yr ysbyty, cleifion mewnol asymptomatig 5 diwrnod ar ôl eu derbyn, a derbyniadau wedi'u cynllunio i ddiogelu pobl sydd â mwy o risg;
- **Profi i ddiogelu** – Profi staff yn rheolaidd mewn lleoliadau fel y GIG, cartrefi gofal, lleoliadau byw â chymorth, ysgolion arbennig neu garchardai i ddiogelu'r bobl fwyaf agored i niwed;
- **Profi i ddarganfod** – Drwy gadw trosglwyddo cymunedol yn isel, byddwn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd amrywiolynnau domestig newydd yn datblygu. Bydd ein dull iechyd cyhoeddus proffesiynol, ochr yn ochr â'r defnydd o Brofion Llif Unffordd a genomeg pathogenau, yn rhoi mwy o allu inni ganfod, deall a lleihau trosglwyddiadau yn gyflym.



Byddwn yn parhau i brofi unrhyw un sy'n meddwl bod ganddynt symptomau er mwyn canfod ac ynysu achosion o COVID-19 yn y gymuned, ond rydym hefyd yn cydnabod nad yw un o bob tri sy'n profi'n positif am COVID-19 yn dangos unrhyw symptomau a bod y nifer sy'n manteisio ar brofion mewn rhai cymunedau yn is. Yn ogystal, mae effaith yr amrywiolynnau newydd yn golygu bod angen inni ddefnyddio rhagor o ffyrdd o ganfod achosion.

Mae ein fframwaith newydd, y Fframwaith Profi yn y Gymuned<sup>5</sup> yn nodi sut y gall partneriaid lleol, ar sail yr hyn a ddysgwyd o'r profion torfol ym Merthyr Tudful a Chwm Cynon Isaf, ddefnyddio technolegau profi newydd ochr yn ochr â'r wybodaeth a geir drwy olrhain cysylltiadau i dargedu heintiau yn ein cymunedau drwy brofion asymptomatig.

Byddwn hefyd yn diogelu rhag y risg o fewnforio a lledaenu amrywiolynnau newydd o fannau eraill. I wneud hyn, rydym wedi creu tîm newydd i ganolbwyntio ar sicrhau bod teithwyr sy'n dychwelyd i Gymru yn cadw at drefniadau cwarantîn a phrofi, os nad ydynt yn gorfod bod dan gwarantîn mewn gwesty.

**Profi i gynnal** – Bydd profi staff yn y gweithle yn rheolaidd yn cynyddu'r wyladwriaeth er mwyn gallu nodi achosion asymptomatig yn gyflymach. Mae profi'r gweithlu yn rheolaidd yn darparu ymateb iechyd cyhoeddus ychwanegol i'r arferion gweithio diogel y bydd angen eu cynnal i ddiogelu staff. Rydym wedi dechrau treialu profion rheolaidd mewn rhai gweithleoedd. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau i ehangu profion rheolaidd ar gyfer gweithwyr na all weithio gartref. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod achosion, torri cadwyni trosglwyddo, a chefnogi amgylcheddau gweithio sy'n ddiogel rhag COVID-19.

Byddwn yn profi'r gweithlu addysg yn rheolaidd er mwyn ychwanegu at y mesurau diogelu sydd eisoes ar waith yn ein lleoliadau addysg.

Yn dilyn cynllun peilot gyda Heddlu De Cymru, byddwn yn ystyried ac yn gwerthuso ymhellach a allai profi unigolion asymptomatig sydd wedi dod i gysylltiad ag achos positif eu galluogi i aros yn y gwaith yn ddiogel, gan helpu i gynnal gwasanaethau hanfodol.

**Profi i alluogi** – Wrth inni fwrw ymlaen â chyflwyno brechlynnau a symud tuag at niferoedd is o'r feirws yn ddiweddarach yn 2021, byddwn yn ystyried sut y gall profion fod o gymorth pellach i ddychwelyd i normalrwydd.

5 Mae'r Strategaeth Profi i Gymru, Ionawr 2021, ar gael yn <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-01/strategaeth-brofi-i-gymru.pdf> ac mae'r Fframwaith Profi am COVID-19 yn y Gymuned ar gael yn <https://llyw.cymru/fframwaith-profi-am-covid-19-yn-y-gymuned>

## Cefnogi pobl sydd angen ynysu

Rhaid i brofion fod at ddiben ac ni fyddant yn torri cadwyni trosglwyddo ar eu pen eu hunain. Y weithred o ynysu sy'n atal trosglwyddo'r feirws i eraill. Ar gyfartaledd, mae tua 10% o unigolion sydd wedi dod i gysylltiad ag achos positif yn datblygu COVID-19, gan gynyddu i fod yn nes at 15% yn achos VOC-202012/02 (De Affrica). Felly, mae helpu pobl i hunanynysu'n effeithiol yn bwysicach nag erioed:

- I helpu'r bobl hynny a fydd yn wynebu caledi ariannol os gofynnir iddynt hunanynysu, rydym wedi cyflwyno cynllun cymorth ariannol gwell<sup>6</sup> i bobl ar incwm isel a staff gofal cymdeithasol;
- Mae cymorth ymarferol ar gael i helpu pobl i hunanynysu'n llwyddiannus. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gydlynu cymorth lleol, gan gynnwys o'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector. Mae hyn yn cynnwys cyfeillio i helpu pobl sy'n teimlo'n unig, cymorth gyda siopa, casglu meddyginiaeth a gwasanaethau mynd â chŵn am dro.

<sup>6</sup> Mae gwybodaeth am gynllun cymorth Hunanynysu Llywodraeth Cymru ar gael yma [llyw.cymru/cynllun-cymorth-hunanynysu](http://llyw.cymru/cynllun-cymorth-hunanynysu)

# Llacio cyfyngiadau lefel rhybudd 4

---

## Amrywiolynnau a Mwtaniadau sy'n Peri Pryder

Mae'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amrywiolynnau a mwtaniadau sy'n peri pryder yn golygu nad ydym yn gwybod yn union beth fydd effaith llacio'r cyfyngiadau. Mae'r arwyddion cynnar yn arbennig o addawol y bydd y brechlynnau yn lleihau nifer y trosglwyddiadau, ond mae angen mwy o dystiolaeth er mwyn bod yn gwbl glir am hyn. Rydym yn gobeithio y bydd y rhaglen frechu yn lliniaru effaith unrhyw gyfradd drosglwyddo uwch, gan ganiatáu inni lacio'r cyfyngiadau yn gyflymach pan fyddwn wedi brechu mwy o'r boblogaeth. Fodd bynnag, bydd yn cymryd amser i ddadansoddi'r data a meithrin ein dealltwriaeth.

Bydd angen inni fod yn ofalus hefyd wrth gymryd y camau cyntaf i lacio'r cyfyngiadau oherwydd mae llawer o bobl a allai gael salwch difrifol, a chael eu derbyn i'r ysbyty o ganlyniad, ar ôl i'w brechu o hyd. Os byddwn yn llacio'n rhy gyflym mae perygl y gallem weld ton arall cyn bod digon o bobl wedi cael eu brechu. Gallai hyn olygu y bydd y bobl hynny nad yw'r brechlyn yn rhoi'r un lefel o amddiffyniad iddynt, neu'r rheini na allant gael y brechlyn, yn cael eu rhoi mewn perygl. Wrth i fwy o bobl gael eu brechu, ac wrth i'r cyfraddau trosglwyddo yn y gymuned barhau'n isel, gallwn reoli'r amrywiolynnau newydd, ac mae'r perygl yn lleihau.

## Agwedd ragofalus at lacio'r cyfyngiadau wrth i'r gwaith o gyflwyno'r brechlynnau barhau

Gallwn edrych ymlaen at amser pan fyddwn yn llacio'r cyfyngiadau yn gyflymach ond, am y tro, rhaid inni fod yn llawer mwy pwyllog. Mae'r amrywiolynnau a mwtaniadau sy'n peri pryder yn golygu na allwn symud yn uniongyrchol ac yn gyfan gwbl i lefel rhybudd 3 mewn un cam. Bydd angen inni gyrraedd y pwynt hwn yn raddol, gam wrth gam, gan asesu'r effaith wrth inni symud yn ein blaenau. Mae hyn yn gyson â'r cyngor a gafwyd gan ein Grŵp Cyngor Technegol, Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau y DU (SAGE) a Sefydliad Iechyd y Byd.

Bydd dull fesul cam yn ein helpu i addasu ein hymateb ac yn sicrhau na fydd ein blaenoriaethau, fel dychwelyd myfyrwyr i'r ysgol, yn cael eu rhoi yn y fantol drwy geisio gwneud gormod yn rhy gyflym.

Byddwn yn mabwysiadu dull tebyg i'r un a gymerwyd gennym o fis Mai 2020 ymlaen wrth lacio'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud. Mae hyn yn golygu cymryd camau gofalus a gwerthuso'r effaith cyn gwneud newidiadau pellach. Mae'r cylch adolygu tair wythnos sydd eisoes ar waith gennym yn rhoi amser digonol inni weld effeithiau'r newidiadau cyn inni wneud rhagor. Fel yn ystod yr haf y llynedd, os bydd y dystiolaeth yn newid a'r amodau yn caniatáu, byddwn yn gallu gwneud newidiadau yn gyflymach y tu allan i'r cylch adolygu tair wythnos. Bydd hyn yn sicrhau mai dim ond ar gyfer y cyfnod sy'n angenrheidiol y bydd y cyfyngiadau ar waith.

Rhaid inni barhau i gael ein harwain gan yr wybodaeth a'r data wrth inni symud ymlaen. Ni fyddwn yn pennu terfynau amser trwy fypwy am y rhesymau a nodwyd yn y ddogfen hon. Mae gormod o ansicrwydd ac mae angen inni wybod mwy am effeithiolrwydd brechlynnau, effaith amrywiolynnau a mwntaniadau sy'n peri pryder, a pha mor gyffredin ydynt, ac effaith y newidiadau yr ydym yn eu gwneud.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid ledled Cymru yn yr ysbryd o gydweithredu a phartneriaeth a fabwysiadwyd gennym gydol y pandemig hwn. Byddwn yn gweithio gyda'r partneriaid hynny – o awdurdodau lleol, i'r heddlu, i fusnesau a chyrrff sector, i bartneriaid cymdeithasol ac eraill – er mwyn cynllunio ar gyfer newidiadau ac i roi trefniadau ar waith cyn inni wneud y newidiadau hynny. Mae hyn yn caniatáu amser ar gyfer eu cyflwyno ac yn sicrhau bod modd gwneud y paratodau angenrheidiol cyn i leoedd ailagor a chyn i weithgarwch ailddechrau mewn modd diogel ac a reolir.

## **Blaenoriaethau wrth symud allan o'r cyfyngiadau**

Rydym yn cydnabod bod ar bawb eisiau sicrwydd i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi cymryd camau mawr ymlaen o ran cyflwyno'r brechlynnau. Fodd bynnag, yn sgil amrywiolynnau newydd, ni allwn ddarparu cymaint o sicrwydd na bod mor rhagweladwy ag yr hoffem.

Gallwn ddweud mai'r cyfyngiadau a nodwyd ar lefel rhybudd 3 yw'r cam cyntaf yr ydym yn gweithio tuag ato. Gallwn hefyd ddweud bod cyflwyno'r brechlyn i'r pum grŵp blaenoriaeth nesaf erbyn diwedd mis Ebrill yn darparu carreg filltir amlwg yr ydym yn disgwyl ail-werthuso ein dull sy'n seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf yn ei herbyn.

Byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl am y newidiadau yr ydym yn eu blaenoriaethu ar gyfer y cyfnodau adolygu sydd i ddod ac yn gweithio gyda busnesau a sefydliadau eraill i'w cefnogi i ailagor mewn ffordd sydd mor ddiogel â phosibl. Bydd hyn yn caniatáu i'r busnesau a'r sefydliadau hynny wneud paratodau ar gyfer ailddechrau gweithgareddau os bydd yr amodau yn caniatáu iddynt wneud hynny.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r busnesau hynny nad ydynt yn gallu ailagor. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu pecyn cymorth cadarn i fusnesau drwy gydol yr argyfwng, gan ddarparu £2bn o bunnoedd. Rydym am barhau i ddarparu cymorth ariannol i fusnesau yr effeithiwyd arnynt yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn ddibynnol ar gael y cyllid angenrheidiol gan Lywodraeth y DU er mwyn inni allu gwneud hynny.

Gallwn hefyd fod yn glir ynglŷn â'r hyn y mae'r wyddoniaeth eisoes yn ei ddweud wrthym am y risgiau cymharol a'r blaenoriaethau yr ydym ni fel Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u nodi. Gall hyn ddangos pa feysydd sy'n debygol o gael eu blaenoriaethu wrth symud i lefel rhybudd 3:

- Dychwelyd ein plant, pobl ifanc a myfyrwyr i ysgolion ac addysg fydd ein prif flaenoriaeth o hyd. Ni ddylai'r amcan hwn gael ei gyfaddawdu gan unrhyw newidiadau eraill a wneir.
- Byddwn yn blaenoriaethu'r newidiadau sy'n gwella lles, gan gyflwyno'r rheini sydd â'r lleiaf o risg yn gysylltiedig â nhw yn gyntaf.
- Mae gweithgareddau awyr agored yn parhau i fod yn llai o risg na gweithgareddau dan do, felly mae gweithgareddau sy'n digwydd yn yr awyr agored yn debygol o aildechrau cyn gweithgareddau dan do.
- Mae'r un yn wir am gyfarfod yn yr awyr agored – bydd yn ffordd fwy diogel o weld pobl, cyn y gallwn ailgyflwyno aelwydydd estynedig neu ganiatáu i bobl gyfarfod dan do.
- Mae llai o risg ynghlwm wrth weithgareddau sy'n cynnwys llai o bobl dros gyfnodau byrrach o amser na phan fydd llawer o bobl yn yr un lle am gyfnod hir o amser.
- Mae busnesau megis manwerthu nad yw'n hanfodol a gwasanaethau cysylltiad agos yn llai o risg ac yn debygol o allu ailagor cyn lleoedd risg uwch megis campfeydd, canolfannau hamdden a lletygarwch.

Yn anffodus, nid oes modd inni ragnodi dyddiadau ar gyfer pryd y gallwn symud i lefel rhybudd 3 na faint o bethau y gallwn eu gwneud ym mhob cam. Bydd angen inni ailasesu effaith llacio blaenorol yn barhaus, ystyried yr hyblygrwydd sydd ar gael i wneud rhagor o newidiadau, ac ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf ar amrywiolynnau a mwtaniadau sy'n peri pryder ac effaith brechlynnau. Bydd hyn yn ein galluogi i addasu ein hymateb i'r sefyllfa gyfnewidiol yn ystod y cyfnod adolygu tair wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym yn dibynnu ar ymdrechion y cyhoedd i barhau i gadw at yr arferion amddiffynnol craidd, megis cadw pellter cymdeithasol a golchi dwylo, sy'n helpu i ddiogelu unigolion a'r boblogaeth rhag COVID-19 ac unrhyw glefydau heintus eraill.

# Addysg a gofal plant

---

Fel y nodir uchod, ein prif flaenoriaeth o hyd yw gweld myfyrwyr yn dychwelyd i ysgolion ac addysg. Nid yw addysg yn rhan ffurfiol o'r fframwaith lefelau rhybudd, ond mae penderfyniadau ynglŷn ag 'ailagor' addysg yn cyd-fynd â'r broses benderfynu ac adolygu bob tair wythnos, ac yn rhan annatod ohoni.

Rydym wedi bod yn glir mai ysgolion, colegau, gofal plant a lleoliadau addysg eraill ddylai fod yr olaf i gau a'r cyntaf i agor pan fydd angen cyfyngiadau. Rydym wedi rhoi blaenoriaeth gyson i gynnal dysgu wyneb yn wyneb ar gyfer dysgwyr agored i niwed, plant gweithwyr allweddol, a dysgwyr sy'n sefyll arholiadau neu asesiadau. Mae ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion hefyd wedi aros ar agor pan fo'n bosibl tra mae lleoliadau gofal plant wedi aros ar agor i bob plentyn. 'Ailagor' addysg yn raddol yw'r cam cyntaf allan o'r cyfyngiadau.

Mae tystiolaeth gref dros y niwed economaidd-gymdeithasol a achosir i blant a phobl ifanc o ganlyniad i gau safleoedd addysg yn y tymor byr a'r tymor hir. Ceir tystiolaeth hefyd fod hyn yn effeithio'n anghymesur ar blant o ardaloedd dan anfantais, a hefyd ar blant o lawer o grwpiau lleiafrifol. Ymhlith y casgliadau a wnaed yn adroddiad SAGE 'COVID-19: *Benefits of remaining in education – evidence and considerations*' y mae bod cau ysgolion yn peryglu canlyniadau addysgol, yn enwedig i fyfyrwyr dan anfantais<sup>7</sup>.

Mae niwed yn debygol o gynnwys cynnydd mewn 'profiadau niweidiol yn ystod plentynod'. Mae ymchwil yn dangos y gall y profiadau hyn arwain at anawsterau o ran trawma ac ymlyniad, a allai fod yn ddifrifol dros y tymor hir gan arwain at ganlyniadau gwael a mwy o iechyd gwael ar hyd oes yr unigolyn. Rydym hefyd yn gwybod bod dysgu o bell yn anodd i'n dysgwyr ieuengaf. Ar gyfer dysgwyr hŷn sy'n astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, efallai na fydd dysgu ar-lein yn bosibl gan fod angen iddynt ddefnyddio cyfleusterau coleg neu weithle i ddysgu sgiliau ymarferol. Mae angen inni sicrhau bod gan ddysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau y strwythur i ddysgu a'r cymorth sydd ei angen arnynt i baratoi ar gyfer asesiadau, fel y gallant bontio'n llwyddiannus i'r cam nesaf o ddysgu neu gyflogaeth.

Rydym wedi dysgu llawer iawn drwy gydol y pandemig hwn o ran yr hyn sy'n effeithio ar drosglwyddo'r feirws mewn ysgolion. Mae papur briffio gan y Grŵp Cyngor Technegol<sup>8</sup> yn helpu i ddarparu map ffordd ar gyfer ysgolion a lleoliadau eraill. Mae'n nodi nad yw'n ymddangos bod ysgolion wedi ysgogi trosglwyddiad cymunedol yn anghymesur, er y gallai ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag agor ysgolion gael effaith (e.e. rhieni a phlant yn cyfarfod y tu allan i'r ysgol). Rydym hefyd yn gwybod bod nifer yr achosion ymhlith ein disgyblion ieuengaf

7 [www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/935192/spi-b-dfe-benefits-remaining-education-s0861-041120.pdf](https://www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/935192/spi-b-dfe-benefits-remaining-education-s0861-041120.pdf)

8 Y Grŵp Cyngor Technegol, 'Ystyriaethau o ran newid trefniadau ysgolion i ganiatau mwy o ddysgu wyneb yn wyneb', 5 Chwefror 2020. Ar gael yn: [llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/y-grwp-cyngor-technegol-ystyriaethau-ar-gyfer-newid-trefniadau-ysgolion-i-ganiatau-mwy-o-ddysgu-wyneb-yn-wyneb.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/y-grwp-cyngor-technegol-ystyriaethau-ar-gyfer-newid-trefniadau-ysgolion-i-ganiatau-mwy-o-ddysgu-wyneb-yn-wyneb.pdf)

wedi bod yn isel iawn yn ystod y pandemig, a bod cyfraddau achosion a gadarnhawyd ymhlith plant 11 oed neu iau yng Nghymru wedi bod yn gyson is na'r cyfraddau ymhlith plant hŷn. O ran y gyfradd drosglwyddo, mae hyn yn awgrymu y bydd dychwelyd pob dysgwr ysgol gynradd i'r ysgol yn cael llai o effaith na dychwelyd pob dysgwr ysgol uwchradd. Ym mhob cam, mae angen cynllun a rheoli dysgu wyneb yn wyneb yn ofalus, gydag asesiadau risg lleol i sicrhau bod mesurau rheoli yn cael eu dilyn.

Mae'r Grŵp Cyngor Technegol wedi bod yn glir, er mwyn sicrhau bod digon o hyblygrwydd i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol, ei bod yn ofynnol bod dangosyddion cenedlaethol allweddol yn symud i'r cyfeiriad cywir. Mae'r dangosyddion hyn yn cynnwys: bod llai o achosion o'r feirws yn y gymuned a bod cyfraddau achosion yn is; bod cyfraddau positifedd profion yn is; bod nifer y gwelyau a ddefnyddir mewn ysbytai ac unedau gofal dwys ar lefel y gellir ymdopi â hi; a bod y gyfradd Rt islaw 1.

O 22 Chwefror, bydd ein disgyblion ieuengaf yn dechrau dychwelyd i'r ysgol. Mae hyn yn cydnabod y ffaith eu bod yn ei chael yn anoddach dysgu o bell ac mae'n ymateb i'r dystiolaeth wyddonol ar drosglwyddiadau ymhlith plant iau. Rydym hefyd yn helpu dysgwyr galwedigaethol i ddychwelyd i'r coleg fel y gallant fanteisio ar yr amgylchedd hyfforddi neu'r amgylchedd gweithio angenrheidiol i ymgymryd â chymwysterau ymarferol mewn sectorau blaenoriaeth.

Drwy gydol y cyfnod hwn, byddwn yn parhau i fonitro'r data cenedlaethol fel y nodir gan y Grŵp Cyngor Technegol. Os bydd y tueddiad positif o ran y data yn parhau, byddwn yn defnyddio unrhyw hyblygrwydd a fydd ar gael i barhau â'n dull fesul cam o ddychwelyd rhagor o ddisgyblion i ysgolion a cholegau.

Yn dilyn trafodaethau cynhyrchiol gyda'n cydweithwyr yn yr undebau a'n partneriaid yn yr awdurdodau lleol ac mewn addysg bellach, rydym yn cyflwyno nifer o fesurau eraill i ddarparu lefel arall o sicrwydd i staff ar gyfer dychwelyd yn ddiogel i addysgu wyneb yn wyneb. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno profion ddwywaith yr wythnos ar gyfer aelodau staff yn ogystal â rhagor o gymorth ariannol ar gyfer gorchuddion wyneb newydd. Rydym yn darparu cyllid ychwanegol i gefnogi ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol i fuddsoddi ymhellach mewn eitemau sydd eu hangen arnynt i gadw eu mangreoedd yn ddiogel.

Ein nod o hyd yw cadw pob lleoliad gofal plant ar agor i bob plentyn.

# Addysg Uwch

---

Bydd addysg mewn sefydliadau addysg uwch yn parhau i gael blaenoriaeth. Disgwylir i fyfyrwyr ymddwyn yn yr un modd ag unrhyw oedolion eraill yn y boblogaeth gyffredinol. Felly, pan fydd y lefel rhybudd yn dweud y dylem aros gartref, dylai'r neges allweddol i fyfyrwyr a staff addysg uwch fod yr un fath: aros gartref a gweithio neu astudio gartref os yw'n bosibl. Yn yr un modd, dim ond os na allant weithio gartref y dylai pobl fynd i'w gweithle neu eu lleoliad astudio.

Er mwyn sicrhau bod campws yn ddiogel rhag COVID, mae prifysgolion wedi ymrwmo i ddarparu model dysgu cyfunol, gyda'r rhan fwyaf o weithgarwch ar y campws wedi'i gyfyngu i weithgarwch hanfodol yn unig. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cael dwy i dair awr o ddysgu wyneb yn wyneb yr wythnos. Mae'r rhain yn oriau tiwtorial hanfodol i gynnal y broses ddysgu ac mae'n cefnogi lles ac yn helpu i gynnal diddordeb.

Ar bob lefel rhybudd mae campws prifysgolion ar agor. Gall myfyrwyr a staff sydd angen defnyddio cyfleusterau neu adnoddau dysgu, ymchwil a gwaith ar y campws gael at gyfleusterau'r campws megis llyfrgelloedd academiaidd, manau astudio, stiwdios neu labordai. Mae hyn yn golygu y caiff myfyriwr neu aelod o staff adael ei gartref os oes angen iddo wneud hynny gan na all gwblhau ei waith gartref.

Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gweithio o gartref, drwy ddulliau dysgu ar-lein. Dim ond dysgu wyneb yn wyneb sy'n hanfodol ac na ellir ymgymryd ag ef o'r cartref sydd wedi cael ei flaenoriaethu. Mae'r myfyrwyr hyn yn cynnwys y rheini sy'n gwneud gwaith ymchwil, myfyrwyr sy'n astudio meddygaeth, nyrsio neu ddeintyddiaeth, y rheini sy'n dilyn cyrsiau gwyddorau labordy, cyrsiau ymarferol neu berfformio a'r rheini y mae'n ofynnol iddynt gael achrediad gan gorff proffesiynol.

Fodd bynnag, mae gan lawer o fyfyrwyr gyfeiriad yn ystod y tymor a chyfeiriad arall ac maent yn gallu dewis teithio i "symud adref" o dan y rheoliadau, waeth beth fo'r elfen addysgol.



# Dangosyddion a'r camau nesaf

## Dangosyddion ar gyfer llacio cyfyngiadau

Bydd y dangosyddion y byddwn yn edrych arnynt yn cynnwys y rhai a nodwyd yn y fframwaith lefelau rhybudd, ond byddant yn cael eu hategu gan ddata ar nifer yr achosion o amrywiolynnau newydd yng Nghymru, gwybodaeth am gyflwyno brechlynnau, a thystiolaeth o effaith brechlynnau. Wrth i'r brechlynnau gael effaith a'r pwysau ar y GIG leihau, bydd pwysigrwydd lliniaru'r niwed economaidd-gymdeithasol yn hanfodol. Bydd yr holl ffactorau hyn yn cael eu cyfuno â gwybodaeth leol am y sefyllfaoedd ar lawr gwlad ledled Cymru, cyngor gan ein Prif Swyddog Meddygol, ein Prif Gynghorydd Gwyddonol ar lechyd, a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.

Mae cyfradd drosglwyddo amrywiolynnau newydd yn golygu na ellir pennu trothwyon gydag unrhyw sicrwydd a bydd effaith amrywiolynnau a brechlynnau hefyd yn newid y trothwyon hynny mewn gwahanol gyfeiriadau. Bydd angen inni barhau i werthuso ac ailaddasu'r ffordd o gymhwyso'r dangosyddion i'n penderfyniadau.

## Symud o lefel rhybudd 4 i lefel rhybudd 3

Rydym ar hyn o bryd ar lefel rhybudd 4 lle mae'r cyfyngiadau 'aros gartref' mwyaf caeth mewn grym. Unwaith y bydd y rhain yn cael eu codi, byddwn yn symud i gyfnod pontio pan fyddwn yn bwriadu symud yn raddol, cam wrth gam, i lefel rhybudd 3.

Mae ein system Profi, Olrhain, Diogelu yn parhau i weithredu'n rhagorol. Gallwn fod yn falch o ymdrechion aruthrol ein GIG ac eraill wrth gyflwyno'r rhaglen frechu. Gallwn hefyd fod yn obeithiol ynglŷn â'r effaith y bydd hyn yn ei chael o ran byw gyda'r coronafeirws yn y dyfodol. Yn ogystal, gallwn ymfalchio yn ymdrechion, agwedd benderfynol a chadernid pobl Cymru, sydd wedi aberthu llawer iawn. Mae hyn oll yn awgrymu bod dyfodol mwy disglair o'n blaenau.